

JONES, OWEN ('Owain Myfyr'; 1741 - 1814), crwynwr yn Llundain, ac un o'r ffigurau amlycaf ym mywyd llenyddol Cymru yn niwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19fed

**Enw:** Owen Jones

**Ffugenw:** Owain Myfyr

**Dyddiad geni:** 1741

**Dyddiad marw:** 1814

**Plentyn:** Owen Jones

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** crwynwr yn Llundain, ac un o'r ffigurau amlycaf ym mywyd llenyddol Cymru yn niwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19fed

**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi

**Awdur:** Griffith John Williams

Ganwyd 3 Medi 1741 yn Llanfihangel Glyn Myfyr, sir Ddinbych. Pan oedd yn wr ifanc, aeth i Lundain yn brentis o grwynwr. Gweithiai gyda Messrs. Kidney and Nutt yn Ducksfoot Lane, a phan oedd tua 40 oed, cafodd y fusnes i'w ddwylo ei hun. Ei gyfeiriad o tua 1782 ymlaen ydoedd 148 Upper Thames Street. Daeth yn wr cyfoethog, oherwydd er cymaint sylw a rôl i'r gwaith o hyrwyddo bywyd llenyddol Cymru nid esgeulusodd ei fusnes. Ac yntau dros ei 60 oed, priododd, a bu iddo dri o blant. Bu farw 26 Medi 1814, a chladdwyd ef ym mynwent Allhallows.

Wedi iddo ddyfod i Lundain yn wr ifanc, daeth i gysylltiad â [Richard Morris](#) a Chymry eraill y Brifddinas. Dyma'r gymdeithas a enynnodd ei ddiddordeb yn hanes llenyddiaeth Gymraeg ac ym mywyd llenyddol y dydd. Yn y cyfnod hwn, fe'i galwai ei hun yn 'Owain ap Huw.' Fe'i cawn ef a'i gyfaill, '[Robin Ddu o Fôn](#),' yn 1768 yn codi gwaith [Dafydd ap Gwilym](#) o lyfrau'r [Morrisiaid](#) yn ogystal â phob math o ddefnyddiau eraill a welent yn yr hen lawysgrifau. Dyma un o'i brif ddiddordebau trwy gydol ei yrfa. Ni wyddom pa bryd yr ymunodd â Chymdeithas y Cymmrodorion, ond dengys yr argraffiad o'r *Gosodedigaethau* a gyhoeddwyd yn 1778 mai ef oedd yr ysgrifennydd cynorthwyol yn y dyddiau hynny.

Ond yr oedd ef a '[Robin Ddu](#)' wedi sefydlu cymdeithas arall cyn hynny, sef Cymdeithas y Gwyneddigion. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr 1770, a'r llywydd yn 1771 ydoedd 'Owain Myfyr.' Bu'n llywydd droeon wedi hynny, a hefyd yn ysgrifennydd ac yn drysorydd. Wedi marw'r Cymmrodorion yn 1787, dechreuodd Cymdeithas y Gwyneddigion ar ei gyrfa fel prif noddwr dysg Gymraeg, ac 'Owain Myfyr' a fu wrth y llyw am dros 20 mlynedd. Cyfarfyddai Cymry llengar Llundain yn nhafarn y Bull's Head (neu'r 'Crindy'), ac yno y trefnid yr holl waith. Yn 1789, dechreuodd y gymdeithas gynnig gwobrau am awdlau yn y cyfarfodydd a gynhaliar'r mân feirdd yng Ngogledd Cymru, a dyma ddechrau'r eisteddfod, fel y gwyddom ni amdani.

Yn yr un flwyddyn hefyd dechreuwyd cyflawni'r gorchwyl y buasai ysgolheigion Cymraeg yn breuddwydio amdano trwy gydol y 18fed ganrif, sef cyhoeddi cynnwys yr hen lawysgrifau. Yn 1789, cyhoeddwyd gwaith [Dafydd ap Gwilym](#), ac 'Owain Myfyr' yn un o'r golygyddion. Yna, yn 1798, ffurfiwyd cynllun mawreddog i gyhoeddi holl gynnwys y llawysgrifau, ac, yn 1801,

ymddangosodd dwy gyfrol fawr o dan y teitl, *The Myvyrian Archaeology of Wales*, lle y ceid gwaith y Cyneifredd a'r Gogynfeirdd a chasgliad o'r Brutiau. Ni allwyd myned ymlaen â'r gwaith am gyfnod, a hynny oherwydd colledion a gawsai ' Owain Myfyr ' yn ei fusnes, ond yn 1807 cyhoeddwyd trydedd gyfrol. Bwriedid cynnwys y Mabinogi a'r Rhamantau, a thalodd ' Owain Myfyr,' i gopiwyd am lunio casgliad gweddol gyflawn o weithiau'r cywyddwyr. Heblaw hyn, bwriadai ddwyn allan argraffiadau newydd o brif glasuron yr 16eg ganrif a'r 17eg ganrif. Daw terfyn ar y gweithgarwch hwn tua 1807. Ni allai ef namyn cynllunio, ac wedi i [William Owen Pughe](#) gael etifeddiaeth yn sir Ddinbych, nid oedd ganddo neb i ymgymryd â'r caledwaith. Heblaw hyn, yr oedd yn hen wr a phlant ifainc yn dibynnu arno. Dylem gofio o hyd na byddai gweithgarwch y cyfnod hwn (1789-1807) yn bosibl onibai am ei haelioni ef. Ef a dalai holl gostau'r cyhoeddi. Gwariodd filoedd o bunnoedd, ac y mae llythyrau'r cyfnod yn dangos pa help ariannol a roes i bob math o fudiadau a hefyd i feirdd a llenorion Cymru. Rhaid ei restru ymhlith prif gymwynaswyr dysg Gymraeg. Y mae ei lawysgrifau a'i bapurau a'i llythyrau yn yr Amgueddfa Brydeinig.

Mab iddo oedd [Owen Jones](#) (1809 - 1874), a nai iddo oedd [Hugh Maurice](#).

## Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

## Ffynonellau

*The Gentleman's Magazine*, 1814, ii, 499

*Monthly Magazine*, 1815, 80-2

*The Cambro-Briton*, 1819, 19-23

Leathart, *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society of London* (London 1831), 13

*Y Gwladgarwr*, 1838, 33-5

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908), 259-60

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 625-6

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, i, 252-61

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Owen Jones](#)

## Gweithiau

*The Myvyrian Archaeology of Wales (1801-1807)*, Cyfrol 1

*The Myvyrian Archaeology of Wales (1801-1807)*, Cyfrol 2

*The Myvyrian Archaeology of Wales (1801-1807)*, Cyfrol 3

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [101044482](#)

Wikidata: [Q7114529](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.